YR YMOFYNYDD.

RHIF. 50.] CHWEFROR, 1863. [AIL GYFRES.

CRIST YN DDOETHINEB ODDIWRTH DDUW, &c.

PREGETH GAN Y PARCH. T THOMAS, AR 1 COR. I. 30.

Y Bregeth ganlynol a draddodwyd yng nghyfarfod Trimisol Undodiaid Deheubarth Cymru, yn yr Hen-dy-cwrdd, Aberdar, Nadolig diweddaf—y cyfarfod trimisol cyntaf a gynhaliwyd ynddo wedi ei ail-adeiladu.

Ni ysgrifenwyd hi gyda golwg i'w hargraphu, ond ar gais rhai cyfeillion a'i clywodd wele hi yn cael ei rhoddi i'r cyhoedd trwy'r wasg. Dichon fod ynddi lawer o wallau mewn orgraph a chystrawen, ond na fydded i'r darllenydd hynaws dramgwyddo wrth y cyfryw. Fy ngobaith penaf yw fod y syniadau yn ddealladwy ac efangylaidd.

Pantydefaid, Ionawr 1, 1863. THOMAS THOMAS.

GAN fy mod wedi cael fy appwyntio i'ch anerch y bore hwn, gwnaf hyny yn onest, a gobeithio yn ddidramgwydd i bob un o honoch; ond na ddisgwyliwch i mi gelu oddiwrthych ddim a fyddo yn ymddangos i mi yn wirionedd gan nad pa mor groes i'ch tybiau crefyddol chwi. Byddai hyny yn "drin gair Duw yn dwyllodrus," ac yn annheilwng o Gristionogrwydd a phob achos da. Bydded i chwi farnu drosoch eich hunain, derbyn yr hyn fyddoch yn ystyried yn wirionedd, a gwrthod yr hyn fyddo yn gyfeiliornus. Mae'r gwirionedd yr un cymaint pwys i chwi ag yw i minau; ac o'r tu arall mae cyfeiliornad yr un mor niweidiol. Heb ychwanegu rhagor, af yn awr ym mlaen i wneuthur rhai nodiadau ar y geiriau a ddarllenais fel testun.

Er, fe ddichon, nad oes dim yn anefangylaidd yn yr adnod fel y mae, eto mae yn ymddangos i mi nad ydyw yn gyfieithad cywir o'r gwreiddiol. Er mwyn cyfiawnder â Paul, a phob awdwr, dylai eu mheddwl gael ei drosglwyddo o iaith i iaith gyda'r onestrwydd mwyaf. Pan mae'r cyfieithad yn gyfeiliornus, y cyfieithwr sydd yn llefaru ac nid yr awdwr gwreiddiol. Mae yn wir fod camgyfieithadau mwy pwysig, mewn amryw fanau yn y Beibl, na'r un dan sylw, ond mae onestrwydd a gwirionedd yn ein rhwymo i fod yn ffyddlon yn y *lleiaf* yn gystal ag yn y *mwyaf*. Dylid bob amser gadw golwg, os yn ddichonadwy, ar y "gwir, a'r holl wir, a dim ond y gwir." Pa un ai gwirfoddol neu anwirfoddol yw llawer o'r camgyfieithadau a gyfarfyddir â hwynt yn yr Ysgrythyrau, nid yw yn perthyn i mi i benderfynu. Y cyfieithwyr eu hunain a wyddent i ba raddau yr oeddent yn cyflawni eu gorchwyl dan ddylanwad eu hopiniynau crefyddol; ond un peth sydd amlwg ac addefadwy, (ac nid anghariadus, yr wyf yn tybygu, yw dywedyd hyny), sef, fod y cyfieithad yn aml yn *gyfeiliornus*. Byddai diwygio'r camgyfieithadau mewn rhai mànau, ac adferu'r cywir-ddarlleniadau mewn mànau eraill yn fanteisiol iawn i'r gwirionedd, ac yn achos gorfoledd i bob Cristion teilwng o'r enw; ond gwyddis, beth bynag yr amherffeithrwydd yn y cyfieithad

awdurdodedig, a pha gymaint bynag, ei fod bellach wedi cael ei gysegru gan dreiglad oesau, a bod rhagfarn yn amddiffynfa gadarn iddo, fel mai gorchwyl anhawdd fyddai effeithio diwygiad. Er hyny mae yspryd ymofyniad yn dechreu gweithio yn yr Eglwys Gristionogol, yr hon sydd wedi bod yn hepian yn hir, ac mi dybygwn fod arwyddion yr amserau yn rhagfynegu'r cyfryw fendith fel un o'r canlyniadau.

Dros gyfieithad arall a gwell o'r adnod dan sylw, mae genyf awdurdod dim llai nag eiddo y dysgedig Mr. Wakefield. Mae Dr. Doddridge yn crybwyll am dano heb un anghymeradwyaeth; ac y mae Mr. Belsham yn ei fabwysiadu fel yr un cywiraf. Y cyfieithad yw—"Eithr yr ydych chwi o hono ef yn gyfiawnder ac yn sancteiddrwydd ac yn brynedigaeth yng Nghrist Iesu, yr hwn a ddaeth *(is become)* i ni yn ddoethineb oddiwrth Dduw." Yn ol y cyfieithad hwn, sylwer, Duw a wnaeth yr Iesu yn ddoethineb, neu a'i cynysgaeddodd â doethineb, ac yr ydym ninau yn, neu trwy'r Iesu, yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd ac yn brynedigaeth. Nid oes amheuaeth genyf lai na mai hyn oedd meddwl Paul mor onest ag y gellir trosglwyddo un iaith i'r llall; ac o ganlyniad yr wyf yn cymeryd yr adnod yn y drefn ac yn ol y cyfieithad uchod.

Yn gyntaf, galwaf eich sylw at yr ymadrodd, "Yr hwn, sef Crist Iesu, a wnaethpwyd i ni yn ddoethineb gan Dduw." Wedi ychydig ystyriaeth o'r amgylchiadau, yr wyf yn meddwl y canfyddwn yn eglur beth oedd amcan Paul, ac nas gallasai dim fod yn fwy naturiol iddo nag ysgrifenu fel y gwnaeth. Nid tebyg fod Paul yn anerch y Corinthiaid, na neb eraill, mewn dull *gwirfoddol* dywyll, ond mai ein hanwybodaeth ni o sefyllfa ac helyntion yr Eglwys gynt yw y rheswm pam y mae ei ysgrifeniadau yn aml mor anhawdd eu deall. Pe gallem ni lwyddo i symud ymaith y gorchudd oddiar y pethau yma, gwnelai hyn lawer màn tywyll yn oleu yn Epistolau Paul, a gwelem ei fod bob amser yn ysgrifenu yn rymus ac yn gywir i'r pwnc. Yn y benod hon, yn gystal ag yn wasgaredig ar hyd y penodau canlynol, y mae llawer o awgrymiadau trwy ba rai, yr wyf yn tybied, yr arweinir ni i mewn i amryw o ddirgelion y Corinthiaid, ac y galluogir ni i wybod cryn lawer am ansawdd eu mheddwl a'u teimlad, ac o ganlyniad i weled mai eithaf naturiol ac anghenrheidiol oedd i Paul ddywedyd fod yr Iesu wedi cael ei wneuthur i ni yn ddoethineb gan Dduw. Yr oedd eisiau galw sylw yr anghredinwyr, yn Iuddewon ac yn Roegiaid at y gwirionedd hwn, ac yr oedd eisiau dyfnhau argyhoeddiad hyd yn ôd Cristionogion eu hunain ynddo. Er yn Gristionogion o ran proffes, ni ddylem ni feddwl eu bod oll gynt mwy nag yn bresennol yn gywir ac ëang iawn eu gwybodaeth.

Yn un o'r adnodau rhagflaenol yn y benod hon yr ydym yn cael y geiriau hyn: "Oblegid y mae'r Iuddewon yn gofyn arwydd," neu arwyddion yn hytrach yn ol y darlleniad dewisedig gan Griesbach. Ac nid yn unig *yma*, ar awdurdod Paul, hysbysir ni fod yr Iuddewon yn cael eu hynodi, ym mhlith pethau eraill, gan awydd i weled arwyddion, ond ar dystiolaeth Crist hefyd yr ydym yn canfod fod arwyddiongarwch yn nodweddiadol o'r bobl Iuddewig. Matt. xii. 38. "Yna yr atebodd rhai o'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, gan ddywedyd, Athraw, ni a chwenychem weled arwydd genyt." Matt. xvi. 1. "Ac wedi i'r Phariseaid a'r Sadduceaid ddyfod ato a'i demtio, hwy a atolygasant iddo ddangos iddynt arwydd o'r Nef." Ioan ii. 18. "Yna yr Iuddewon a ddywedasant wrtho ef, pa arwydd yr wyt yn ei ddangos i ni, gan dy fod yn gwneuthur y pethau hyn?" Yr oedd yr Iuddewon, gellid

meddwl, wedi bod yn llygaid-dystion digon aml o weithredoedd yr Iesu, fel nad oedd achos iddynt i ofyn am ragor ; ond nid oedd alluadwy, braidd, eu boddloni ar y pen hwn. Nid digon iddynt oedd gweled y claf yn cael ei iachau, a'r dall yn cael ei olwg, ond chwenychent weled rhyfeddodau yn y *nef uwchben*, rhyw ymddangosiadau disglaer, tanllyd, o bosibl, yn y cymylau a'r ffurfafen. Yr oedd eu disgwyliadau am y Messia y fath fel nad oedd y pethau rhyfeddaf yn ddigon rhyfeddol iddynt hwy—yr oedd eu gwaedd am ragor a mwy. Yr ydwyf wedi crybwyll y pethau yma oherwydd fy mod yn gweled ynddynt ddarluniad o'r yspryd a weithredai yn yr Iuddewon, Iuddewon Corinth megis eraill, mor rhwystrol i dderbyniad a ffyniant Cristionogaeth. Yr oedd Crist a Christionogaeth, er mor amlwg *stamp* y Nef arnynt, debygem ni, eto yn rhy *syml*, *diuddurn*, a *diymddangosiad* i'w boddloni hwy. Buasai'r Efengyl yn debyg o gael derbyniad mwy mynwesol, pe buasai mwy o *bomp* a rhodres yn gydfynedol â hi ; ac nid gormod o bosibl gan yr Iuddewon yn Corinth fuasai gweled y nef yn achlysurol yn fflamiau, a theimlo cedyrn sylfeini y ddaear yn awr ac yn y màn yn crynu danynt. Nid camsyniol, yr wyf yn tybied, i mi hefyd ddywedyd, fod yr Iuddewon *crediniol*, neu *Gristionogol*, i raddau mwy neu lai, yn cyfranogi o'r yspryd hwn, a bod Paul yn ofni eu bod mewn perygl o wrthgilio, a gwneuthur llongddrylliad o'r ffydd mewn canlyniad. Yr oedd hyd yn ôd ganddynt hwy *ormod* o serch mewn ymddangosiadau, fel yr oedd Paul yn lled-ofni, i fod mewn cymod perffaith a diogel â symlrwydd Efengyl yr Iesu. "Mae yr Iuddewon yn gofyn arwyddion."

Eto yn yr un benod yr ydym yn darllen fod "pregethu Crist wedi ei groeshoelio i'r Iuddewon yn dramgwydd." Ymddengys fod croeshoeliad yr Iesu yn rhwystr ar ffordd yr Iuddewon i wneuthur cyffes o hono. Pe na buasai dim yn anerbyniol yn ei ddysgeidiaeth, nac un peth arall i beri siomedigaeth, yr oedd yr amgylchiad yma o hono'i hunan yn ddigon o graig-rwystr—yr oedd myned yn ddysgyblion i ddyn wedi ei *groeshoelio* yn *gywilydd* ac yn *ddiraddiad* mawr. Ac yn wir, cyn gwybod o'r Iuddewon mai tynged yr Iesu oedd cael ei groeshoelio, yr oeddynt ym mhell o fod yn barod i fyned ar ei ol. "At ei eiddo ei hun y daeth, a'r eiddo ei hun nis derbyniasant ef." Pa beth oedd y rheswm o hyn ? Heb sôn am gamdybiad yr Iuddewon parth natur cenadwri yr Iesu, un rheswm sydd gynwysedig yn y geiriau a ddywedodd Nathanael wrth Phylip : "A ddichon dim da ddyfod o Nazareth ?" Yr oedd yr Iesu wedi dyfod allan o'r lle hwn, lle gwael a dirmygedig, a'r trigolion yn isel ac anwaraidd ; ac nid oedd yn gredadwy y gallasai un dyn o fri, yn anad neb y Messia, ddyfod o fàn mor ddiarhebol wael. Rheswm arall dros hwyrfrydigrwydd yr Iuddewon i dderbyn yr Iesu a geir yn yr ymadrodd a ganlyn : Matt. xiii. 55—57. "Onid hwn yw mab y saer ? onid Mair y gelwir ei fam ef ? a Iago a Joses a Simon a Judas ei frodyr ef ? ac onid yw ei chwiorydd ef oll gyda ni ? A hwy a rwystrwyd ynddo ef." Yr oedd Joseph yn ddyn tlawd yn enill ei fywioliaeth trwy *weithio*, a pha fodd gallasai'r Iuddewon roddi hawddamor i fab y gwr gwledig o Nazareth, fel eu haddawedig a'u hir ddisgwyliedig Fessia ? Na, na. Ni fuasai hyn yn gweddu i'w hurddas. Rheswm ychwanegol paham yr oedd yr Iuddewon mor anhydyn i gredu yn yr Iesu a welir yn y dyfyniadau canlynol. Matt. xiii. 54. "O ba le y daeth y doethineb hwn, a'r gweithredoedd nerthol i'r dyn hwn ?" Ioan vii. 15. "A'r Iuddewon a ryfeddasant gan ddywedyd, pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth ac yntau heb ddysgu ?"

Oherwydd yr amgylchiadau soniedig a'r cyffelyb nid oedd yr Iesu yn dderbyniol gan yr Iuddewon. Pe buasai yn fab i ryw oludog mewn porphor a lliain main, a'i breswylfod yn ninas sanctaidd Jerusalem, o ddygiad anrhydeddus i fynu, ac wedi cael manteision dysgeidiaeth wrth draed un o'r prif Rabbis, buasai'r Iuddewon yn fwy parod i'w dderbyn yr un a ddisgwylient i ddyfod i waredu Israel. Ond mae coron y dirmyg ar ôl. Yr Iesu a groeshoeliwyd ar fynydd Calfaria! Dyma dramgwydd yr holl dramgwyddiadau; dyma gyflawnder eithaf ei anheilyngdod; a rheswm digonol dros ei wrthodiad! Yn gwybod fod yr holl bethau yma yn cydweithredu ar feddyliau yr Iuddewon yn rhwystrol i'r cydnabyddiad o'r Iesu fel y Crist, ac i'w proffesiad o'r Efengyl, a bod pob dianrhydedd perthynol i'r Iesu yn awr yn cael ei berffeithio yng ngwradwydd ei farwolaeth, Paul a ddywed fod pregethu Crist croeshoeliedig yn dramgwydd iddynt. Ac i lawer o'r Iuddewon a broffesent Gristionogrwydd, gwyddai'r Apostol fod yr ymadrodd am y groes yn atgas, a bod eu ffydd oherwydd hyny mewn cryn berygl. Y Cristionogion Iuddewig, rai, os nid llawer o honynt, er mwyn gochelyd chwerthin a gwatwar eu gelynion, a chwenychent, pe yn alluadwy, gelu croeshoeliad eu blaenor, fel yr ymddengys oddiwrth waith Paul mor aml yn ceisio eu cymodi â'r ffaith. Meddai, "Na atto Duw i mi ymffrostio ond yng nghroes ein Harglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y croeshoeliwyd y byd i mi, a minau i'r byd." Ac yn yr ail adnod o'r ail benod yn y llythyr hwn, Paul a ddywed, "Ni fernais i mi wybod dim yn eich plith ond Iesu Grist wedi ei groeshoelio."

Yn nesaf, y Groegwyr. I'r rhai'n mae'r "ymadrodd am y groes" yn "ynfydrwydd" ac yn "ffolineb"—rhyw faldordd disynwyr, dywedent, dim gwerth i wrando arno. Cyn y gwnaethent hwy roddi clust o ymwrandawiad, rhaid oedd siarad doethineb—rhaid oedd traethu *philosophy*, a hyny mewn ymadrodd coeth, gyda rhyw gymaint o *flourish* areithyddol, mewn geiriau hirion, anghymalog, a broddegau cymhlyg. Yng ngolwg y Groegiaid philosophyddol yr oedd athrawiaeth Paul yn rhy *syml* a *diaddurn*, a'r iaith yn rhy *egwan* a *sathredig*; ac i'w clustiau puredig hwynt oedd sôn am wyrthiau yn ffolineb anoddefadwy! Pe buasai Cristionogrwydd pryd hyny yn fwy tebyg i'r hyn ydyw yn *awr* mewn llawer màn, wedi cael ei hathroniaethu gan dduwinyddion yr Almaen ac eraill, ac yn cael ei gwisgo allan yn iaith addurniadol traethodau a chyfrolau dysgedig y dyddiau presenol, (yn y rhai y mae yn orchwyl mor anichonadwy i mi, a rhai o gyffelyb feddyliau syml a mi, i gael allan un drychfeddwl eglur, a chwilio mynyddau Morganwg a Brycheiniog hyd eu dyfnderoedd eithaf am ryw *berl* a ddichon fod yn guddiedig danynt er pan eu ffurfiwyd yn oes neu oesoedd pell y mynediant)—pe buasai Cristionogaeth yn ei boreuddydd yn cael ei phregethu a'i chymell i ddynion yn yr agwedd ddiwygiedig yma, buasai yn fwy tebyg i amcandybiau ysgolion Alexandria, Athen a Rhufain, heb wyrthiau ac adgyfodiad, ac felly yn fwy cymeradwy gan y Groegwyr. Ond nid felly yr oedd, ac oherwydd hyny mynent ei gwthio o'r naill du fel sothach anheilwng, fel "ffolineb" ac "ynfydrwydd." Nid yw yn anhebyg fod y Groegwyr *Cristionogol* yn Corinth i ryw raddau dan ddylanwad yr yspryd hwn, ac y carent fod yr Efengyl yn cael ei gosod allan mewn nodwedd mwy philosophyddol a chyda "doethineb ymadrodd," fel y byddai yn fwy *fashionable*, a llai agored i wrthddadleuon o du yr anghredinwyr. Yn hyn o beth cytunai yr Iuddewon a'r Groegiaid Cristionogol yn rhwydd; ac mae genym sail i feddwl fod llawer o honynt yn cael cryn foddlonrwydd gan Apollos, blaenor un o'r pleidiau i'r rhai yr oedd yr

eglwys, yn anffortunus, wedi ymranu. Iuddew o Alexandria oedd Apollos yn ddechreuol, ac wedi cael ei ddwyn i fynu yn egwyddorion philosophyddol yr ysgol Alexandraidd. Wedi troi o hono yn Gristion, nid anhebyg nad oedd ei Gristionogaeth heb ryw ychydig o drwyth y cyfryw ysgol yn aros ynddi. At hyn chwaneger dawn ymadroddi, ac yna gwelwn mai naturiol oedd i Apollos foddio chwaeth y Corinthiaid, y Groegiaid yn gystal a'r Iuddewon, a'i fod yn dra phoblogaidd yn eu plith. Nid oedd hyn yn un fantais i Gristionogrwydd, ond yn anfantais fawr. Mwy na thebyg fod yma gynyg yn cael ei wneuthur i symud ymaith y "maen tramgwydd" a'r "graig rhwystr" trwy ddifodi ei symlrwydd, a chymysgu â hi elfenau estronol gau-*philosophy*.

Dyma gyflwr pethau yn Corinth: "yr Iuddewon yn gofyn arwydd, a'r Groegiaid yn ceisio doethineb,"—yr oedd arnynt eisiau Efengyl mwy ymddangosiadus a mwy philosophyddol na'r un oedd Paul wedi bregethu yno. Gadewch i ni, yn nesaf, weled pa fodd mae'r Apostol yn pleidio ei achos, ac ar ba sail y mae yn ei gymeradwyo i'w sylw a'u derbyniad. Yr oedd Cristionogrwydd yn syml ei chymeriad, yn ddiffygiol mewn doethineb, a elwid felly, a Christ wedi cael ei groeshoelio. Ffeithiau anwadadwy oedd y pethau hyn; ac, er eu bod yn rhwystrol ac yn tramgwyddo rhai, mae Paul yn ymffrostio ynddynt. Ei ymresymiad sydd debyg i hyn: Os isel yr Iesu o rân ei ddechreuad a'i amgylchiadau yn y byd, ac os angau y groes fu ei dynged, yr oedd yn Eneiniog Duw, ac i'r Cristionogion oll, yn Iuddewon a Groegwyr, yn "nerth Duw" ac yn "allu Duw," ac y "mae gwendid Duw yn gryfach na dynion." Os yw rhai yn bostio yn eu doethineb, fel pe dywedasai, pa beth yw'r ddoethineb yma wedi'r cyfan? "Pa le mae y doeth? Pa le y mae yr ysgrifenydd? Pa le y mae ymholydd y byd hwn? Oni wnaeth Duw ddoethineb y byd hwn yn ynfydrwydd? Canys oherwydd yn noethineb Duw, nad adnabu y byd trwy ddoethineb mo Dduw, fe welodd Duw yn dda trwy ffolineb pregethu (neu bregethu ffolineb) gadw y rhai sydd yn credu. Ac mae ffolineb Duw yn gallach na dynion." Gan mai tywyllwch, eilunaddoliaeth, ac anfoesoldeb, oedd ffrwyth y *philosophy* yn y byd, onid oedd gan Paul reswm dros ei galw yn "ffolineb ac yn ynfydrwydd?" A chan gyferbynu'r Cristionogion â'r "doeth a'r ysgrifenydd a'r ymholydd," yn ymwybodol o uwchafiaeth y blaenaf, Paul a ddywed, "Eithr Duw a etholodd ffol bethau y byd fel y gwaradwyddai y doethion, a gwan bethau y byd a etholodd Duw fel y gwaradwyddai y pethau cedyrn. A phethau distadl y byd, a phethau dirmygus, a ddewisodd Duw, a'r pethau nid ydynt fel y diddymai y pethau sydd, fel na orfoleddai un cnawd ger ei fron Ef. Ac yr ydych chwi (sef y Cristionogion) o hono Ef ynghrist Iesu yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb." Dyma ddoethineb teilwng o'r enw, wedi dyfod oddiwrth Dduw, yn *ddwyfol*. Yng Nghrist yr *oedd* ac y *mae*'r ddoethineb yma. Yr oedd wedi ei derbyn oddiwrth Dduw. Gan nad pwy mor ddistadl yr oedd yn cael ei hystyried gan y byd yn gyffredin, yr oedd wedi tarddu o ffynon fawr pob goleuni a gwybodaeth; yr *oedd* ac y *mae* eto yn "nerth Duw" ac yn "allu Duw" i'r sawl sydd yn credu. Gorfoleddai yr Apostol yn y ddoethineb hon, a dywedai, "Yr wyf yn cyfrif pob peth yn golled ac yn dom oherwydd gwybodaeth Crist Iesu fy Arglwydd."

"Crist a ddaeth i ni yn ddoethineb oddiwrth Dduw, neu a wnaethpwyd i ni yn ddoethineb gan Dduw," fel mai teilwng i'w sylwi, sydd ymadrodd yn dynodi *dwyfoldeb* ei ddysgeidiaeth, ei derbyniad oddiwrth Dduw, nid ffrwyth ymchwil naturiol y meddwl, ond dadguddiad trwy ysprydoliaeth yr Holl-

wybodol. Felly, os yw tystiolaeth y Testament Newydd yn gredadwy, y mae uwchlaw amheuaeth fod Cristionogrwydd mewn modd *neillduol* wedi deilliaw oddiwrth Dduw, ac o ganlyniad yn hawlio gwarogaeth dibetrus pob dyn. Ond nid fy amcan i heddyw yw amddiffyn gwirionedd ac awdurdod y Testament Newydd, na thraethu dim parth *natur* a *mesur* ysprydoliaeth Crist ac eraill, er fod hyn yn orchwyl ag a ddylai gael ei gyflawni gan ryw un neu ryw rai y dyddiau presenol, eithr yn hytrach gosod ger eich bron dystiolaeth y Testament Newydd gan gymeryd ei hawdurdod yn ganiattaol. Credai Paul fod Crist wedi cael ei ddysgu gan Dduw; ac y mae tystiolaeth Crist ei hunan i'r un perwyl. Ioan xvii. 16. Meddai'r Iesu, "Myfi a roddais iddynt hwy dy air di. Sancteiddia hwynt yn dy wirionedd, dy air sydd wirionedd. Canys y geiriau a roddaist i mi a roddais iddynt hwy. A'r gair yr ydych yn glywed, nid eiddof fi ydyw, ond eiddo y Tad a'm hanfonodd i. Fy nysgeidiaeth nid eiddof fi yw, eithr eiddo yr hwn a'm hanfonodd i. Y pethau a glywais i gan Dduw, y rhai hyny yr ydwyf yn eu dywedyd i'r byd. Eithr yn awr yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i, dyn a ddywedodd i chwi y gwirionedd yr hwn a glywais i gan Dduw." Ni chwanegaf ragor o ddyfyniadau mae yr hyn a glywsoch, os ydynt yn goeliadwy, yn ddigon i ddangos fod Crist wedi dyfod yn "ddoethineb oddiwrth Dduw," neu wedi cael ei wneuthur yn ddoethineb gan Dduw, yn yr ystyr mai "eiddo" Duw oedd y ddoethineb yma, mai Duw a'i *rhoddodd* iddo, neu mai gan Dduw y *clywodd* efe hi. Felly ar awdurdod Crist ei hunan mae ei *ddysgeidiaeth*, neu ei *ddoethineb* yn *ddwyfol*, ac ar gyfrif ei *dwyfoldeb* mae Paul yn galw sylw y Corinthiaid a phawb eraill ati.

Mewn cysylltiad â hyn gwnaf un sylw wrth fyned ym mlaen. Cyfaddefir gan bob enwad o Gristionogion fod y darnau a ddarllenais yn profi dwyfoldeb athrawiaeth Crist, ond ni chyfaddefir gan bawb o honynt eu bod hefyd yn *gwrthbrofi* Duwdod Crist. Ond yn ddiau y maent; oblegid pa fodd y gallasai yr Hollwybodol gydag un cymhwysder ddywedyd mai nid ei *eiddo ei hun* oedd y geiriau, ond eiddo ei Dad? A *glywodd* ac a *ddysgodd* yr Hollwybodol ryw beth gan un ag oedd yn fwy gwybodus nag ef ei hun? Bydded i'n brodyr Trindodaidd i ystyried hyn a gweled y gwrthuni o hono.

Yn nesaf, pa beth yw y ddoethineb yma a ddysgwyd i ni gan Grist oddiwrth Dduw? Ar ba bethau mae Cristionogrwydd yn traethu? A yw ei gwirioneddau yn gorph o ddoethineb gyffredinol? A oedd yr Iesu wedi dysgu Astronomyddiaeth gan Dduw nes yr oedd yn deall cylchdroadau'r planedau ac yn gallu mesur eu pellderau a'u maintioli? A oedd yr Iesu yn Fferyllydd, yn medru dadansoddi cyrph cymysgedig i'w sylweddau elfenol gan amgyffred eu hamrywiol briodoleddau? A oedd y gwybodaethau yma a'u cyffelyb yn gynwysedig yn noethineb yr Iesu? Nid wyf yn tybied. Nid oedd wedi ei ddysgu trwy ysprydoliaeth yn nirgelion anianyddiaeth. Ar y maes hwn yr oedd yn gydradd â'i gydwladwyr yn gyffredinol, yn meddu'r un wybodaeth, ac yn cyfranogi o'r un anwybodaeth â hwythau. Pun amlycaf y *dynol* yn yr Iesu mewn pethau cyffredin, amlycaf i gyd *ddwyfoldeb* y ddoethineb a draethodd. Doethineb yr Iesu sydd *foesol* neu *ysprydol*. Efe yw'r ffordd at y Tad, Dysgawdwr rhinwedd, Tywysydd i ddedwyddwch, ac Agorydd pyrth anfarwoldeb i feibion a merched Adda. Yn y cyfeiriad yma mae'r Iesu, yr hwn a groeshoeliwyd, wedi cael ei wneuthur i ni yn ddoethineb gan Dduw, ac ar gyfrif hyn mae wedi derbyn "enw yr hwn sydd goruwch pob enw, fel yn enw yr Iesu y plygai pob glin

o'r nefolion, daearolion, a thanddaearolion bethau, ac y cyffesai pob tafod ei fod yn Arglwydd er gogoniant Duw Dad." Hon yw coron pob doethineb. Pob gwybodaeth arall, heb ei thymheru â'r Efengyl, sydd yn ddiffygiol; ac yn ymwybodol o hyn, Newton, Locke, a philosophyddion enwog eraill, a olrheinient eu myfyrdodau i mewn i ddirgeledigaethau anian gan rodio yng ngoleuni Haul Cyfiawnder ac ar hyd làn afon bywyd tragywyddol.

Yn ail.—"Eithr yr ydych chwi o hono ef yng Nghrist Iesu." Ië, yr ydym ni yng Nghrist "o hono ef;" o Dduw, o ewyllys ac o drefniad Duw. Gwirionedd ag sydd ar bob tudalen, braidd, o'r Testament Newydd yw hwn. Yn y modd yma y dywed Ioan: "Yn hyn y mae cariad, nid am i ni garu Duw, ond am iddo Ef yn gyntaf ein caru ni. Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd Efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ond caffael o hono fywyd tragywyddol." Felly gweddai i ni oll gyda chalonau diolchgar i Dduw ddywedyd, "O hono Ef, a thrwyddo Ef, ac iddo Ef y mae pob peth. Iddo Ef y byddo gogoniant yn dragywydd." Na feddylied, ac na ddyweded Cristionogion ddim a thuedd ynddo i gymylu cariad Duw, ac i ddyrchafu arall uwchlaw yr hwn sydd Fendigedig yn oes oesoedd, ac yn anfeidrol well na phawb.

"Canys yr ydych chwi o hono Ef *yng Nghrist.* Ym mha ystyr y gellir dywedyd fod dynion "yng Nghrist?" Er mor ffol a gwrthun yw llawer o bethau a gredir dàn yr enw Cristionogrwydd, eto nid oes neb, goeliaf, a fedr gredu mai bod "yng Nghrist" yn *bersonol* neu yn ei berson yw meddwl yr Apostol. Pa beth ynte am gynwysiad y frawddeg? Y mae amryw ymadroddion gwasgaredig ar hyd tudalenau y Testament Newydd, y rhai, o'u hystyried, a'n cynorthwyant i ddyfod i benderfyniad cywir. Dywed Paul yn y benod hon, "Eithr yr ydym ni yn pregethu Crist wedi ei groeshoelio," h.y. yn pregethu yr hyn a ddysgwyd i ni gan Iesu Grist yr hwn a groeshoeliwyd. Etto yn 2 Cor. iv. 5, "Canys nid ydym yn ein pregethu ein hunain, ond Crist Iesu yr Arglwydd; a ninau yn weision i chwi er mwyn Iesu," h.y. nid oedd Paul a'i gyd-apostolion yn pregethu eu dychymygion eu hunain, ond Efengyl Iesu Grist. 2 Cor. xi. 4, "Canys yn wir os ydyw yr hwn sydd yn dyfod yn pregethu Iesu arall yr hwn ni phregethasom ni," neu "Efengyl" arall, fel y mae'r Apostol yn egluro ei hunan yn yr un adnod. Rhuf. xiii. 14, "Eithr gwisgwch am danoch yr Arglwydd Iesu Grist;" a Gal. iii. 27, "Canys cynnifer o honoch ag a fedyddiwyd yng Nghrist, a wisgasoch Grist." Nid Crist yn *bersonol* sydd i'w olygu yma, yr hwn mae'r Cristionogion yn ei *wisgo*, ond rhinweddau athrawiaeth Crist, y rhai a ddisglaerient mor ogoneddus yn ei gymeriad rhagorol ei hunan.

Yn yr engreifftiau a ddarllenais allan o lythyrau Paul ei hunan gwelir mai nid anarferol ganddo oedd dywedyd "Crist" ac "Arglwydd Iesu Grist" pan y golygai yr *Efengyl* a bregethwyd gan Grist ynghyd â'r *rhinweddau* y rhai mae'r Efengyl yn eu dysgu ac yn eu golygu. Bod "yng Nghrist" o ganlyniad yw bod yn yr Efengyl, neu yn "noethineb" Crist a than ei llywodraeth.

Gydâ dywedyd bod dynion yng Nghrist, mae Paul yn newid ychydig o'i ddull, ac yn ysgrifenu *fod Crist mewn dynion*, dan ymadrodd hollol gyfystyr. Rhuf. viii. 10, "Ac os yw Crist *ynoch* y mae y corph yn farw oherwydd pechod." Col. i. 27, "I'r rhai yr ewyllysiodd Duw hysbysu beth yw golud y dirgelwch hwn ym mhlith y cenhedloedd, yr hwn yw Crist *ynoch* chwi, gobaith y gogoniant." Gydâ'r un amcan y dywed yn Gal. iv. 19, "Fy

mhlant bychain, y rhai yr wyf yn eu hesgor drachefn hyd oni ffurfier Crist *ynoch*." Felly mae Paul yn amrywio ei ymadrodd, ond yn trosglwyddo yr un meddwl. Dynion "yng Nghrist," a Christ mewn dynion, sydd yn arwyddocau yr un cyflwr byth-bwysig a gogoneddus.

Nid Paul yn unig sydd yn arfer y fath ddull ymadrodd â hwn, ond mae Iesu Grist wedi arfer dull cyffelyb o'i flaen ef. Meddai yn Ioan xv, "Arhoswch *ynof* fi, a mi *ynoch* chwi. Yr hwn sydd yn aros ynof fi a minau *ynddo* yntau, hwnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer. Os arhoswch *ynof* fi, ac aros o'm geiriau ynoch. Os arhoswch chwi *yn fy ngair I*, dysgyblion i mi ydych yn wir, a chwi a gewch wybod y gwirionedd a'r gwirionedd a'ch rhyddha chwi." Felly mae aros o'r dysgyblion "yng Nghrist," ac aros o Grist yn y dysgyblion yn ymadroddion cydgyfnewidiol gan ein Hiachawdwr megis gan Paul, ac yn arwyddo arosiad o'r gwirionedd yn y meddwl, ac o'r meddwl yn y gwirionedd. Gydâ golwg ar y rhan amlaf o'm gwrandawyr nid oedd angen i mi o bosibl i wneuthur dyfyniadau mor helaeth (i fod mor *dextual* ys dywed rhai) er egluro yr hyn sydd ynddo ei hunan yn ddigon eglur eisioes; ond dichon fod yma *rai*, efallai *amryw*, wedi cael eu dysgu i gredu mai rhyw ddirgelwch anesboniadwy yw bod "yng Nghrist," rhyw gyflwr nad oes gan y goreu sierwydd, ond *gobaith* yn unig ei fod ynddo, rhyw drefniad tra chyfrwys i gymodi cadwedigaeth pechaduriaid â chyfiawnder dialeddol y Goruchaf! Er mwyn y cyfryw yr wyf yn hyderu nad oedd y meithder hyn yn afreidiol; a gobeithio fy mod wedi llwyddo i ddangos mai *ffaith* eglur, *ddealladwy* yw "bod yng Nghrist," sef yw hyny, unwaith eto, bod yn y "ddoethineb" a ddaeth oddiwrth Dduw trwy Grist, bod yn y gwirionedd a bregethodd Crist, ac y bu ef farw drosto. O leiaf os nad wyf wedi tycio i beri argyhoeddiad o hyn, nid gormod i mi obeithio fy mod wedi dangos fod yr olwg yma ar yr ymadrodd yn *Ysgrythyrol*, ei fod yn cael ei gadarnhau gan yr hyn mae Paul wedi ddywedyd mewn manau eraill, a chan dystiolaeth Iesu Grist, Pentywysog a Pherffeithydd ein ffydd."

Yn drydydd.—Yn nesaf ac yn olaf galwaf eich sylw at yr *effaith* neu'r *canlyniad* o hyn, sef o fod "yng Nghrist," neu yn y "ddoethineb" a ddaeth oddiwrth Dduw trwyddo, fel y mae'r Apostol yn dywedyd "yr ydych yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd ac yn brynedigaeth. Gwell Cymraeg, heb un gwahaniaeth yn y meddwl gwreiddiol, fuasai dywedyd, yr ydych yn gyfiawn ac yn sanctaidd, ac yn brynedig neu gadwedig. Er y tybia rhai fod gwahanol ystyrion i'r geiriau yma yn eu perthynas â iachawdwriaeth dyn, y mae fy meddwl i yn rhy wan i ganfod ym mha beth y maent yn gwahaniaethu. Pe buasai Paul wrth ysgrifenu yn astudio *byrdra* neu yn teimlo prinder geiriau, nis gallaf ddeall lai na wnaethai *un* o'r ansawdd eiriau yma y tro, ac y buasai yn ddigon cynwysfawr i arddangos cymeriad y sawl sydd "yng Nghrist." A fuasai darluniad Paul o gymeriad moesol y credadyn yn amherffaith pe buasai ond yn unig wedi dywedyd ei fod yn *gyfiawn*, neu yn *sanctaidd*, neu yn *brynedig?* Nis gallaf fi feddwl felly, ac ymdrechaf ddangos fod y Testament Newydd o'm tu. Os yw y sawl sydd "yng Nghrist" yn gyfiawn, mae mewn stad o gadwedigaeth; os yw yn sanctaidd, mae yn ddiogel ei gyflwr; os yw yn brynedig, gwyn ei fyd yn awr ac am bob tragywyddoldeb.

Ond y cwestiwn mawr yw pa fodd mae'r Cristion yn cael ei gyfiawnhau a'i sancteiddio, a'i brynu? Yn gyntaf, ym mha ystyr y mae ef yn gyfiawn? Yr ateb cyffredinol yw nid trwy *weithrediad* ond trwy *gyfriflad*. Pa beth

yn y byd all cyfiawnder cyfrifol fod? Gwyddom mai ffolineb a gwatwar yw cyfrif y celwyddog yn eirwir, y lleidr yn onest, a'r tlawd yn gyfoethog. Ym mha beth mae cyfiawnder cyfrifol yr eglwys iawn-ffyddiog yn wahanol? Mewn dim goeliaf fi. Ond meddai rhywun, onid yw Paul yn dywedyd yn bendant nad ydyw cyfiawnder dyn ei hunan o werth dim? Meddai yn y llythyr at y Philippiaid, iii. 9, "Ac y'm cair ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun." "Heb fy nghyfiawnder fy hun yr hwn sydd o'r gyfraith" mae Paul yn ddywedyd; ac yma y mae i ni ddeall ei fod yn cyferbynu *dau* gyfiawnder, y naill o'r *gyfraith seremoniol*, a'r llall *trwy ffydd Crist*, ond nid oes yma sôn am gyfrifiad. Cyfiawnder y gyfraith, sef cyfiawnder Saul, yr erlidiwr, yr hwn y mae Paul yr Apostol yn awr yn ei ddibrisio, sydd yn cael ei osod allan yn yr adnodau blaenorol fel hyn: "Wedi enwaedu arnaf yr wythfed dydd, o genedl Israel, o lwyth Benjamin, yn Hebrewr o'r Hebreaid; yn ol y ddeddf yn Pharisead; yn ol zel yn erlid yr eglwys; yn ol y cyfiawnder sydd yn y ddeddf yn ddiargyhoedd." Dyna'r pethau a alwai Paul "ei gyfiawnder ei hun;" ac y maent yn awr wedi myned yn *golled* ac yn *dom* yn ei olwg. Mae am feddu cyfiawnder o well, ond nid ydyw yn dywedyd trwy gyfrifiad, sef y cyfiawnder "yr hwn sydd trwy ffydd Crist," h.y. yr hwn mae Cristionogrwydd yn ei ddysgu i'r Cristionogion, ac yn ei ofyn oddiwrthynt, yr hwn nid yw fenthycol a throsglwyddol, ond eiddo personol pob dyn trwy gyflawniad o hono. "O, blant bychain, na thwylled neb chwi. Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder, sydd gyfiawn, megys y mae yntau yn gyfiawn."

Er pob rheswm, hwyrfrydig er hyny yw'r pechadur i goelio mai trwy weithredoedd, neu wneuthur cyfiawnder, mae iddo i gael ei gyfiawnhau. Myn fod ffordd ferach a rhwyddach i ddedwyddwch (math o *royal road*, fel pe byddai) ac y mae yn barod i ymaflyd mewn cysgod o dystiolaeth o blaid y gyfryw dyb yn hytrach nag *ymwadu âg annuwioldeb a chwantau bydol*, yn hytrach nag ymolchi, ymlanhau, bwrw ymaith ddrygioni ei weithredoedd, peidio a gwneuthur drwg, dysgu gwneuthur daioni, gwneuthur uniondeb i'r gorthrymedig, barn i'r amddifad, a dadlu dros y weddw. Meddai, "wedi sarnu o honoch chwi yr Undodiaid yr adnod anwyl yn Philippiaid sydd newydd fod dan sylw, mae Paul yn llawn o'r un athrawiaeth yn ei lythyrau at y Rhufeiniaid a'r Galatiaid:" Rhuf. iii. 28, "Yr ydym ni gan hyny yn cyfrif mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn, heb weithredoedd y ddeddf;" vi. 6, "Megys y mae Dafydd hefyd yn datgan dedwyddwch y dyn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddo heb weithredoedd;" Gal. ii. 16, "Yn gwybod nad ydys yn cyfiawnhau dyn trwy weithredoedd y ddeddf, ond trwy ffydd Iesu Grist ninau hefyd a gredasom yng Nghrist Iesu, fel y'n cyfiawnhaer trwy ffydd Crist, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf, oblegid ni chyfiawnheir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf." Dyna rai o'r adnodau. Y neb sydd yn darllen yn ystyriol a wyr y chwenychai y Cristionogion Iuddewig gynt orfodi y Cenhedloedd i ddyfod i mewn i'r eglwys, trwy borth Iuddewiaeth, sef trwy ymostwng i enwaediad yn neillduol, a bod Paul, Apostol y Cenhedloedd, yn cymeryd eu plaid gan ddadlu yn erbyn yr Iuddewon nad oedd hyn yn angenrheidiol. Ymdrechai eu perswadio nad oedd "enwaediad ddim na dienwaediad ond creadur newydd," ac na pherthynai i weithredoedd y ddeddf yn hanfodol un teilyngdod moesol, ond mai trwy "ffydd Crist," sef trwy yr Efengyl mae pechadur yn cael ei gyfiawnhau. Ond ni ddywed Paul mwy na Iago, fod ffydd yng Nghrist heb ffrwytho mewn gweithred-

oedd rhinweddol yn ddigon i gymeradwyo dyn gerbron Duw, eithr yn hollol i'r gwrthwyneb, dywed fod "ffrwyth yr yspryd ym mhob cyfiawnder, daioni a gwirionedd." Yn awr, ynte, mae'r Cristion yn gyfiawn yng Nghrist, yn ei ddoethineb, nid trwy *gyfrifiad*, ond trwy gyflawni o hono yr hyn y mae Crist yn ei ddoethineb, yn ei Efengyl yn ddysgu ac yn orchymyn iddo. "Ymddangosodd gras Duw, yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn, gan ein dysgu ni i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr ac yn gyfiawn ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awr hon."

2. *Ac yn sancteiddrwydd.* Mae y sawl sydd dan dywysiad doethineb Duw yn *sanctaidd*, wedi ymneillduo oddiwrth y byd, ac yn ymgadw oddiwrth ddrygioni'r byd: "o'r byd nid ydynt, megis nad oedd ei Blaenor o'r byd." Meddai'r Apostol wrth y Thessaloniaid, "Canys ni alwodd Duw nyni i aflendid, ond i sancteiddrwydd." Mae sancteiddrwydd yma yn gyferbyniol i *aflendid*, ac felly yn arwyddo *purdeb moesol*. Dywed hefyd yn ei lythyr at y Rhufeiniaid vi. 22, "Ac yr awrhon wedi eich rhyddhau oddiwrth bechod, a'ch gwneuthur yn weision i Dduw, y mae i chwi eich ffrwyth yn sancteiddrwydd, a'r diwedd yn fywyd tragywyddol." Yma etto tybygwn fod sancteiddrwydd yn dynodi yr hyn sydd wrthwynebol i bechod,—yr hyn mae gweision Duw yn gyflawni sef cyfiawnder. Felly drachefn mae y rhai sydd yng Nghrist yn *sanctaidd* am eu bod yn rhydd oddiwrth bechod, yn lân oddiwrth bob aflendid moesol, ïe, yn lân hefyd trwy'r gair a lefarodd Crist trwy'r ddoethineb a ddysgodd. Yn yml marwolaeth ymbiliai'n Hiachawdwr dros ei ddysgyblion gan ddywedyd yn y modd difrifolaf, "Y Tad sancteiddiol! sancteiddia hwynt yn dy wirionedd, dy air sydd wirionedd."

"Ac yn brynedigaeth." Mae'r Cristionogion yn *brynedig*. Ym mha ystyr y prynwyd hwynt? Ai yn yr ystyr *lythyrenol* o'r gair? Os felly, pan gwnaethpwyd y fargen, yr oedd *prynwr* a *gwerthwr* a *phris* yn bod. Crist oedd y prynwr, ond pwy oedd y gwerthwr? Bu yn gred gyffredinol unwaith mai eiddo'r diafol oedd dynolryw oddiar y cwymp yn Eden, ac mai iddo ef y talodd yr Iesu am danynt pan eu prynodd ar Galfaria!! A oes yma neb heddyw yn credu hyn? Ai Duw ynte dderbyniodd y pris? Hwyrach efe a'u gwerthodd i Grist, ac nid ei bobl ef mwyach ydym ni, ond pobl yr Iesu trwy bryniad! Eto meddyliwn mai Duw oedd y prynwr yn wreiddiol, a Iesu Grist y pris a roddodd i ddiafol neu ryw berchenog arall. Yna, onid bargen hynod a wnaeth pan y rhoddodd Ei anwyl Fab, Etifedd y nefoedd, i Satan am dorf o bechaduriaid damniol fel dynolryw! Nid ydwyf yn dywedyd pethau fel hyn er diystyru neb sydd yma, ond er mwyn dangos y rhaid fod y Cristionogion wedi eu prynu mewn rhyw ystyr amgen na'r llythyrenol, "un yn dal a'r llall yn cynnyg." Fel yr wyf fi yn gallu deall, mae'r pechadur wedi cael ei brynu pan nad yw pechod mwyach yn *feistr* arno, pan y mae wedi cael ei ryddhau oddiwrth bechod fel caethwas oddiwrth ei arglwydd, ac wedi cael ei wneuthur yn was i Dduw. Prynedigaeth pechadur, yn ol pob golwg resymol ar y Bibl, yw ei waredigaeth *oddiwrth* bechod, nid *yn* ei bechod, yw ei iachawdwriaeth, yw ei "gyfiawnder" a'i "sancteiddrwydd" a'i fywyd tragywyddol; a'r moddion effeithiol i ddwyn hyn oddiamgylch a elwir yn y Testament Newydd yn "bridwerth." Nid rhyw *job* neu orchwyl yw yn cael ei gyflawni trwy *fargenio*, ond cyfnewidiad yn cael ei achosi yn y pechadur gan Gristionogrwydd, cynwysedig mewn lladd yr hên ddyn, pechod, a "gwisgo'r dyn newydd yr hwn yn ol Duw a

grëwyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd." Fel hyn mae'r Apostol Paul yn ysgrifenu at Titus, " Yr hwn a'i rhoddes ei hun drosom, i'n prynu ni *oddiwrth bob anwiredd*, ac i'n *puro* ni iddo 'i hun yn bobl briodol awyddus i weithredoedd da." Pedr a ddywed fod y Cristionogion wedi eu prynu oddiwrth eu *hofer-ymarweddiad*, a'u bod yn blant *ufudd-dod* a'u heneidiau wedi eu *puro* trwy ufuddhau i'r gwirionedd. Yn y modd yma yr wyf yn ystyried fod y credinwyr yn *gyfiawn*, yn *sanctaidd*, ac yn *brynedig*, neu yr hyn sydd gyfystyr, mewn un gair yn *ddynion da*, mewn canlyniad o'u bod yng Nghrist a than arweiniad ei ddoethineb ef.

Nid oes ewyllys genyf i gelu oddiwrthych y ffaith fod y Testament Newydd yn dywedyd fod y Cristion yn cael ei gyfiawnhau a'i sancteiddio, a'i brynu trwy neu â gwaed Iesu Grist. Gwel Rhuf. v. 9; Heb. xiii. 12; 1 Pedr i. 19. Cyhuddir ni o ddiystyru gwaed ein Harglwydd. Nid ydym, gobeithio, yn euog o'r cyfryw gyhuddiad, ond credwn mai " gwaed Iesu Grist, ei Fab ef, sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod," a dywedwn, " Iddo ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun—iddo ef y byddo y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen."

Ond, atolwg, ai'r gwaed a redai trwy wythienau'r Iesu, ac allan trwy dyllau yr hoelion a'r gwaewffyn sydd i'w ddeall? " Gan wybod," meddai Pedr, " nad â phethau llygredig megis arian neu aur y'ch prynwyd oddiwrth eich ofer ymarweddiad, eithr â gwerthfawr waed Crist." Mae gwaed Crist yma yn cael ei gyferbynu a *phethau llygredig*, ac o ganlyniad yn arwyddo rhywbeth *anllygredig;* ond os mai'r gwaed naturiol a feddyliai'r Apostol, yr oedd yr un mor llygredig ag arian neu aur, ïe, a llawer *mwy* felly. Os ca Pedr egluro ei hun, dywed wrthych chwi a minau a phawb fod y pechadur a gredo yn cael ei brynu, neu ei aileni, neu ei buro gan waed Crist, sef yw hyny y "Gwirionedd, Gair Duw, Gair yr Arglwydd yr hwn sydd yn aros yn dragywydd." Dyma'r gwaed anllygredig ac anllygradwy, sef y gwirionedd ddoe a heddyw, yr un ac yn dragywydd. Barnai'r ysgrifenwyr mai nid amhriodol oedd galw'r gwirionedd yn *waed* Crist, oblegid iddo orfod colli ei waed drosto. Fod y gwaed i'w ddeall mewn ystyr *ffigurol* yn y modd yma, mae genym Iesu Grist ei hunan yn awdurdod: Ioan vi. 53, &c., " Oni fwyttewch gnawd Mab y dyn, ac oni yfwch ei waed ef, nid oes genych fywyd ynoch. Canys fy nghnawd i sydd fwyd yn wir, a'm gwaed i sydd ddiod yn wir." Pa beth yw bwyta cnawd yr Iesu ac yfed ei waed ef? Onid derbyn a chredu'r gwirionedd a ddysgodd? Clywn ef ei hunan yn dywedyd, " Yr yspryd yw yr hwn sydd yn bywhau, y cnawd nid yw yn llesau dim: y geiriau yr ydwyf fi yn eu llefaru wrthych, yspryd ydynt a bywyd ydynt." Felly nid yw gwaed Iesu Grist, effeithioldeb yr hwn yng nghadwedigaeth pechadur a grybwyllir mor aml yn y Testament Newydd, ddim amgen na'i wirionedd, neu ei ddoethineb, i'r hon y mae Paul yn y testun yn priodoli "cyfiawnder, sancteiddrwydd, a phrynedigaeth" y Cristion.

Yr wyf yn brysio tua'r diwedd; ond cyn terfynu goddefwch i mi alw eich sylw, a bydded i mi alw fy sylw fy hunan hefyd at y ffaith bwysig, dragywyddol bwysig a osodir o'n blaen yn y testun, a thrwy yr holl Destament Newydd, sef fod y Cristionogion oll yn ddynion *cyfiawn* a *sanctaidd*, neu yn ddynion *da*. Mae crefydd Crist yn gwneuthur ei hôl lle bynag y mae mewn gwirionedd. Mae'n farwolaeth i bechod ac yn fywyd i rinwedd. A

ydym ni yn Gristionogion yn yr ystyr hyn, neu yn ymestyn at y nôd? Gallwn fod yn sicr mai mesur eithaf ein Cristionogrwydd yw mesur ein daioni. Mae'r byd, digon gwir, yn llawn iawn o Gristionogion mewn proffes, "yn gwneuthur yn llydain ei phylacterau, ac yn gwneuthur ymylwaith eu gwisgoedd yn helaeth, yn medru dywedyd, Arglwydd, Arglwydd, gydâ'r ilithrigrwydd mwyaf; ond pa nifer o honynt sydd yn bwysau yng nghlorianau'r Efengyl? Ai Cristionogion yw pawb sydd yn galw eu hunain felly? Nage, fel y mae gwaetha'r modd! Y maent yn darllain llawer, yn gweddio llawer, bob amser yn bresenol yn y capel neu'r eglwys ar amser addoliad Duw. Ydynt, digon gwir, ond beth yw ffrwythau'r darllain, a'r gweddio, a'r cyniwair i addoliad cyhoeddus? Beth yw tystiolaeth yr ymddygiad yn y *shop*, yn y farchnad, neu lle bynag y mae eu hamgylchiadau yn eu gosod i dreulio eu hamser? A adnabyddir hwynt yma wrth eu geirwiredd, ffyddlondeb, trugaredd, cyfiawnder a sancteiddrwydd? Pe holem ein hunain yn fanol a difrifol, caem weled, lawer o honom, ein bod ym mhell o'r hyn a ddylem fod fel Cristionogion. Gwelem fod ein crefydd yn ormod o *sham*, yn ormod o "ddegymu y cwmin, y mintys a'r anis," ac yn rhy fach o gyflawni pethau trymach y gyfraith, sef barn, a thrugaredd a ffydd!

Nid amcan Cristionogrwydd yw sïo cydwybodau euog i gysgu, ond deffroi'r pechadur i deimlo truenusrwydd ei gyflwr, a chyda phob brys i fwrw oddiwrtho weithredoedd y tywyllwch, ymadnewyddu yn yspryd ei feddwl a byw bywyd rhinweddol. Dylem holi ein hunain yn aml er gweled a ydyw yr Efengyl a broffeswn yn effeithio arnom er daioni—yn ein gwneuthur yn well dynion, yn well tadau a mamau, yn well plant, yn well brodyr a chwiorydd, yn well meistri a gwasanaethynion, ac yn well cymydogion. Os nad ydym, fel proffeswyr, yn rhagori ar y rhai dibroffes, ofer yw ein crefydd, a dim amgen nag "efydd yn seinio neu symbal yn tincian."

Cyn terfynu hwyrach y disgwyliwch i mi ddywedyd rhywbeth am yr adeilad newydd hwn. Tebygwn ei fod yn brydferth dros ben; ond caniatewch i mi chwanegu mai'r prydferthwch mwyaf a ddichon byth berthyn iddo fydd ymgynulliad Cristionogion at eu gilydd ynddo, am genedlaethau a chenedlaethau, i ymgrymu gerbron yr Arglwydd mewn prydferthwch sancteiddrwydd; fydd cynulleidfa luosog o henafgwyr, canol-oed ac ieuenctid, a'u meddyliau yn llawn o ddoethineb yr Iesu, a'u cymeriadau yn gwasgar peraroglau rhinwedd ym mhob cyfeiriad. Dyma'r peth mawr a'r peth mwyaf i gadw golwg arno. Un peth ydyw adeiladu ac addurno ein capeli nes tynu sylw dynion, peth arall a mwy ydyw adeiladu ein hunain yn deml sanctaidd i Dduw, ac addurno ein hunain a holl deleidion yr Efengyl nes rhyngu ei gymeradwyaeth ef. Nac anghofiwn ac nac esgeuluswn y gorchwyl pwysig hwn. Yn y cyflawniad o hono yn unig y mae cael diogelwch a dedwyddwch yng nghanol cyfnewidiadau a helbulon y fuchedd bresenol. A phan y delo'r amsèr oddiamgylch i ni adaw'r byd a'r bywyd hwn, pan byddo ein haul ar fin machludo, a phan y byddom yn teimlo ein traed yn tramcwyddo wrth y mynyddoedd tywyll, anrhaethol werth i ni'r pryd hwn fydd cael y fraint o edrych yn ol ar fywyd rhinweddol, ac mewn canlyniad, edrych ym mlaen ar y croesawiad gorfoleddus a rydd ein Brawd henaf i ni i'r trigfanau dedwydd yn Nhy ein Tad. Amen.

MYFYRDODAU AR ANGAU A THRAGWYDDOLDEB;

Cyfieithedig o'r Almaeneg i'r Saisneg gan Frederica Rowan. Cyhoeddwyd trwy rasusol ganiatâd ei Mawrhydi.

Oddiwrth yr hyspysiadau am y llyfr uchod, fe ymddengys mai rhan ydyw o waith cryn helaeth a ysgrifenwyd gan Zschokke, gwr enwog o Switzerland—gwaith ag sydd wedi enill cymeradwyaeth uchel gyda Phrotestaniaid y Cyfandir, a'r Almaen yn enwedig, fel y gellir casglu oddiwrth yr amgylchiad o'i fod wedi myned trwy ddim llai na 50 o argraffiadau. Ymddengys fod y diweddar Dywysog Albert wedi cael ei ddysgu yn fore i ddefnyddio a gwerthfawrogi y "Myfyrdodau," ac mai efe ei hun wnaeth y tyniadau allan o'r gwreiddiol a wnant i fynu y llyfr uchod, at wasanaeth ac er cyfarwyddo y teulu Brenhinol. Pe buasai'r llyfr yn cael ei gyhoeddi dan nawdd Undodwyr diau y buasid yn ei ddiystyru a'i gondemnio gan bleidwyr Orthodoxy—gan gymaint y pwys a roddir ynddo ar grefydd ymarferol a gwirioneddau syml a sylfaenol Cristnogrwydd, pan ar yr un pryd y gadewir heibio neu y gwrthwynebir y fath byngciau "anhebgorol" a'r Drindod, yr Iawn a Phoenau diddiwedd. Ond y mae lle i obeithio y bydd gwaith y Frenhines yn dwyn allan y llyfr dan ei nawdd, ac mewn rhan ar ei thraul ei hun, i fod yn foddion i daenu golygiadau mwy cyson ac efengylaidd trwy gylchoedd y bendefigaeth a'r cyffredin.

Barnwyd yn gymhwys i roddi y cyfieithadau a ganlyn o'r hyn a gynnwysa'r llyfr; ar yr hyn a wnaeth Crist, a'r hyn sydd yn aros dynoliaeth ac yr amcenir iddynt fod.

"Fe ddadguddiodd Iesu Grist ein Harglwydd i ni, yn ei fywyd ei hun ar y ddaear, yr hyn yr ydym a'r hyn a ddylem fod. O awr ei enedigaeth yn y preseb isel hyd awr ei ogoneddiad, wedi ei ddisgyniad i'r bedd, yr oedd ei fywyd yn fynegiad prysur o'r hyn y dymunai'r Duwdod i ddyn fod. Mewn dinodedd a chwflwr isel y cafodd ei eni, fel y gallem ni ddysgu nad yw pomp na chyfoeth ddim yn gwisgo dyn â'r gogoniant hwnw sydd o werth yng ngolwg Duw. Bu farw yn dlawd; rhoddodd gwr dieithr fenthyg lle i gladdu ei gorph, fel y byddai i ni i ddysgu mae nid ein tynged ni ar y ddaear yw trysori trysorau ofer, ac ymlynu wrth bethau gweledig, ond ymestyn at y pethau nid ydynt weledig. Nid yw'r Ysgrythyrau sanctaidd ddim yn dywedyd wrthym yn un man fod yr Iesu, yn un rhan o'i fywyd, wedi cynnyddu mewn anrhydedd a golud bydol; ond y maent yn dywedyd wrthym ei fod gydag oedran wedi cynnyddu mewn doethineb ac mewn gwybodaeth o bethau dwyfol. Gorchwyl haelionus ei fywyd oedd gwneuthur dynion yn ddedwydd; daeth i brynu marwolion oddiwrth anwiredd a phechod, ac amwesodd ei yspryd, yn ei gariad ac yn ei drugaredd, nid yn unig ei gyfoedion, ond pawb a fuasai yn cael eu geni filoedd o flynyddau ar ei ol. Ac esgeulusodd mor lleied ar y moddion lleiaf i wneuthur daioni a'r un mwyaf. Iachäodd y dall a'r cloff, ac ymgeleddodd y rhai diymgeledd. Fe gymerodd hyn oll le fel y gallem ni ddysgu mai ein gorchwyl mewn bywyd yw, nid yn unig i ofalu am ein galwedigaethau tymmorol, a bod ein teuluoedd yn cynnyddu mewn sefyllfa a golud, ond i dyfu i fynu yn berffaith ym mhob rhinwedd, i fyned ar gynnydd mewn doethineb a gwybodaeth o Dduw. Er lles dynolryw yr aeth ef i gyfarfod âg angau, y bu farw mewn ymostyngiad perffaith i ewyllys Duw; y cyfodai ei yspryd uwchlaw y sarhad mwyaf poenus—uwchlaw y gloesion meddwl mwyaf tost a allai anniolchgarwch a brad ei gyflawni, uwchlaw y dioddefiadau mwyaf creulon; pan oedd wedi gwanhau gan newin a syched a thriniaeth ddrwg, y syrthiai i lawr yn waedlyd ar y ffordd i Golgotha; a phan yr hoeliwyd ef wrth y groes, ac y gwawdiwyd ef gan y dorf, ac yr ymdrechodd âg angau. Ond gogoneddus

oedd ei oruchafiaeth ef ar y bedd; ac yr oedd hyn oll fel y gallem ni ddysgu mai nid llwyddiant daearol, nid mwyniant pleserau y byd hwn, ydyw amcanion ein bywyd; na ddylai angau na dioddefaint farweiddio ynom ein cariad at y dwyfol, ond ganad beth a ddigwydd i ni, y dylai llygad yr yspryd gael ei gyfeirio at dragwyddoldeb, lle mae llawryf buddugoliaeth a gogoniant yn ein aros pan byddo'r ymdrech ag angau drosodd."—Tud. 163—166.

Ac etto, tudal. 176—178:—"Och! pan y byddwyf yn edrych ar y cyffredinolrwydd o ddynolryw, fath dywyllwch ysprydol yr wyf yn ganfod. Y mae ymddyheuad dwfn am bethau dwyfol ym mhob calon; i bawb y mae crefydd yn rhywbeth rhy sanctaidd; y mae llygaid pawb yn ceisio treiddio i ddyfnderoedd tragwyddoldeb; ond O! y fath feddwl melancolaidd y maent yn ffurfio am eu tynged; fath ddychymmyg annheilwng am fawrhydi Duw! Y maent yn credu y gallant brynu eu cyfodiad yng ngraddogaeth bodau trwy weddiau disynwyr, a seremoniau eglwysig, tra y maent yn byw megys caethion i'w natur anifeilaidd. Yna ar y ddaear y maent yn dymuno arwain bywyd o loddest, ac am eu tynged yn y byd nesaf, y maent yn meddwl gosod eu hymddiried yn eiriolaeth y seintiau, neu ynte yn haeddedigaethau Iesu Grist. Fel hyny y maent yn meddwl ennill eu gogoneddiad. Mynant fwynhau eu nefoedd yma ar y llawr, gan gredu fod eu gweithredoedd da a'u gweddiau yn hollol deilwng o wobrwy nefol. Y maent yn gwneuthur daioni er mwyn taledigaeth yn unig, ac yn gochelyd y drwg yn unig rhag ofn y gosp. Meddyliant am y nefoedd mai math o fywyd o fwyniant anianol *(sensual)* yn para byth ydyw. Ac y mae'r holl gyfeiliornadau yma yn cael eu taenu ar led trwy help dynion diegwyddor, y rhai ydynt yn caniatau iddynt eu hunain i gael eu galw yn offeiriadon y Duw Hollalluog, a rhai yn dysgu athrawiaethau Iesu; ac y mae hedd-ynadon yn gweled anwybodaeth truenus y bobl; ac yn edrych arno gyda difaterwch, gan esgeuluso gosod ar droed well sefydliadau, fel y gallo gwybodaeth o bethau dwyfol fyned ar led hyd yn oed ym mhlith y graddau iselaf. A ydyw yn bosibl fod dynolryw wedi anghofio mor llwyr eu tynged uchel, fel nad oes dim cymmaint a breuddwyd gwan o hono yn aros? Onid yw yr Iesu wedi ei adgyfodi, yr hwn a bregethodd, "Byddwch berffaith fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith." * * * Iesu, y maent yn dy anrhydeddu di â'u gwefusau, ond y mae eu calonau wedi ymddieithrio oddiwrthyt. Y maent yn gwneuthur eu hunain yn bregethwyr dy Air sanctaidd, nid am eu bod yn dymuno dy ddilyn di, ond er mwyn sicrhau iddynt eu hunain gysuron bywyd. Y maent yn gwneuthur eu hunain yn ymddibynol ar amgylchiadau allanol, ar ragfarnau cul-feddwl, a dymuniadau bychain; ïe, y rhai hyny a ddylent fel ysprydoedd anfarwol fod wedi eu dyrchafu, megys y cefaist ti unwaith, uwchlaw y cyfreithiau anghyfnewidiol sydd yn rheoli holl sylweddau daearol. Nid pawb sydd yn gwneuthur hyn mae'n wir! Etto nid yw nifer y rhai a'th gyffesant ac a'th ddilynant di mewn gwirionedd, och! ond bach iawn."

YMDDIRIED YR INDIAD.

Allan o ddydd-lyfr Meddyg yn y fflwyddyn 1818.

Ymhell ar lanau y Mississippi y clywais yn aml am wraig Indiaidd oedranus, yr hon a ddywedid ei bod dros gan mlwydd oed, yr hon a ystyrid fel math o oracl ymhlith ei chenedl; â hon yr oeddwn wedi penderfynu talu ymweliad

wrthyf fy hunan, wrth gwrs, " er fy mod wedi meddwl cael gwledd, rhaid i mi beidio digaloni oherwydd hyn." Y mae yn wir fod syched arnaf, a chyn wired a hyny y byddai'r fwyaren aeddfed yn dderbyniol iawn genyf, ond etto mi *allaf* fyw hebddi. Dylwn fod yn ddiolchgar, feallai, nad pererin blinedig ydwyf mewn rhyw ddiffeithwch poeth, rhyw Sahara anial, wedi fy llethu gan y newydd dychrynllyd " Mae'r ffynnon yn sych." Felly yn ceisio gwneuthur y goreu o fy siomedigaeth, aethum ymaith, ac yn fuan cyfarfyddais a physgotwr tlawd, a basged ar ei fraich. Cododd gobaith a dysgwyliad ynof wrth weled y fasged.

"A ydych chwi wedi bod yn casglu mwyar?" meddwn i. " Ydwyf syr," meddai yntau, "ond y maent yn brin ddigon yn bresennol, ond fe ddaw digon bob yn dipyn."

Fel yr oedd y dyn yn siarad, tynodd y clawr oddiar y fasged, er mwyn i mi gael gweled ei stoc e, a gweyd y gwir, 'roedd gydag e stoc gampus. Yr oedd rhai o'r mwyar, mae'n wir yn goch, ond yr oedd y rhan amlaf o honynt yn ddu eu gwala. "A ydych chwi'n eu gwerthu," meddwn i, " Na," meddai efe, " nid wyf fi ddim yn eu gwerthu byth, syr ; yr wyf yn eu casglu i fy ngwraig, yr hon sydd yn hoff anghyffredin o bwdin mwyar."

" Nid ydyw hyny yn un tipyn o syndod genyf fi," meddwn i. " Y mae'r fwyaren yn dda cym'rwch hi ffordd y mynoch. Y mae yn dda wedi ei chwcio, ac y mae yn dda heb ei chwcio ; mewn pwdin neu bastai ; wedi ei chasglu oddiar y llwyn, neu wedi ei chymmeryd o'r fasged. "A gaf fi gwpwl ?"

" Cewch faint a fynoch," oedd ei ateb parod, a dechreuais innau pigo'r *tip-toppers* o'u plith, a chymmeryd cynnifer ag a fynwn. Dropiais chwe cheiniog i mewn i'r fasged i blant y dyn, os oedd ganddo rai, ac yr oeddwn yn teimlo yn ddiolchgar iawn am wledd mor annysgwyliadwy.

"Ond i ba ddiben y mae'r ddau frigyn sydd yn y fasged?" meddwn i, " paham yr ych chwi'n peidio tynu'r mwyar oddiarnynt ?"

" Y mae y rhai yna i Malen, fy ngwraig," meddai efe, " nid wyf fi byth yn myned i gasglu mwyar duon heb fynu brigyn neu ddau o'r rhai goreu allaf gael iddi hi, oblegid y mae mor hoff o honynt. 'Dallwch chi byth a meddwl, syr, cymmaint y mae hi yn leicio'r brigau yma."

" Dyna reit," meddwn innau, " a gobeithio na rowch chi byth i fynu arferiad mor ragorol. Dyna'r ffordd i chwi wneud i'ch gwraig eich caru, oblegid y mae caredigrwydd yn creu caredigrwydd dros yr holl fyd. Y mae'r ddau frigyn yma wrthynt eu hunain yn werth basgedaid yn llawn o fwyar. Digon tebyg y cewch chi siâr o'r pwdin, ond fe gaiff eich gwraig gadw'r ddau frigyn iddi ei hunan."

Bu'r pysgotwr gryn amser yn siglo'r fasged, fel y gallwn i bigo'r mwyar goreu, ac yr oeddwn innau yn siarad wrtho, heb wybod yn y byd pa un ai fi neu fe oedd fwyaf wrth ei fodd. I mi yr oedd yn ddwbwl wledd ; yr oeddwn yn cael fy moddloni yn y mwyar, ond mwy fyth yr oeddwn yn cael fy moddloni yn serch y dyn tuag at ei wraig. Yr oedd y weithred fwyn a digymmeryd-arno ar ran y pysgotwr tlawd yn beth ag oedd yn taro i mi i'r blewyn. Tra mae mawrion byd yn gwasgar eu mantellau gwerthfawr yn y baw fel na byddo i draed breninol i gael eu dwyno, a thra mae'r fath weithredoedd rhagorol yn cael eu traddodi i edmygedd y cenedlaethau i ddod, boed i minnau i gael cenad i wneuthur cofnodiad o gymmwynasgarwch llai ammhëus bywyd cyffredinol, arwyddion o'r hwn a syrthiant o fewn cylch fy

sylw uniongyrchol i. A maddeuwch i mi, chwi edmygwyr y mawrion, os gosodaf serch y dyn tlawd hwn ar ris uwch na'r serch sydd yn trigo yn mynwesau gwenieithwyr mawrion y byd.

Ar amser pan mae'r arferiad i'r gwŷr meddwon i bwnio a chicio eu gwragedd yn myned ar gynnydd, y mae yn beth hyfryd iawn i gyfarfod ag un esampl o ymddygiad gwahanol. Ar yr ystiel ar y bryn uwchlaw Eccles-bourne, Hastings, yr oedd y pysgotwr yn sefyll â'i fasged, tra'r oeddwn i yn gloddesta ar y wledd a baratowyd i mi. Nid ydwyf fi ddim yn debyg o anghofio'r fan na'r pysgotwr, na'r fasged, na'r mwyar.—*Allan o Bortffolio yr Hen Hwmffre.*

Gohebiaethau.

OLYNWYR Y DDWY FIL, 1662.

Cynnyg ar attebiad i ofyniadau "Cymro Llwyd," tudal. 25. Rhif. Ionawr.

Cymerwn nad oedd "Cymro Llwyd" yn ddarllenwr cyson o'r Ymofynydd am y flwyddyn ddiweddaf; onite buasai yn gwybod ddarfod i ni, fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn, alw sylw ein darllenwyr at y cymhwysder o gadw y cyfnod daucan-mlwyddol, mewn coffadwriaeth barchus am y Ddwy Fil soniedig. Rhoddasom ein rhesymau dros briodoldeb y peth, yn fyr, ar y pryd: nid oes eisieu eu hail-adrodd. Ni wyddom ni fawr neu ddim am y "dwndwr" a ddywed "Cymro Llwyd" fod yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr wedi ei wneud ar yr achlysur; ac ni wyddom ni *ddim* am y "cecru a'r dadlu" sydd wedi bod rhyngddynt hwy â'r esgobyddion yn yr *Herald Cymreig*, ynghylch y peth. Mae y flwyddyn goffadwriaethol, ynghyd a'i gweithrediadau a'i diffygiadau yn awr wedi myned heibio: ac y mae bellach yn *ddiweddar* i ail-agor y cwestiwn—yn yr Ymofynydd o leiaf: ond bydd rhyddid i'n gohebwyr i roddi eu golygiadau ar y pwnge, am enyd etto, os ewyllysiant.

Diau fod crefyddwyr da a ffyddlon wedi bod cyn amser y *Ddwy Fil*, ac wedi eu hamser hwy; ond nid yw hyny yn tynu dim ymaith oddiwrth eu teilyngdod hwy. Mae y sawl sydd yn gyfarwydd â hanes rhyddid gwladol a chrefyddol yn ein gwlad, yn cydnabod ein bod, am hyny o beth, dan ddyled mawr i egwyddorion a ffyddlondeb y *Ddwy Fil* soniedig a'r rhai a ddysgwyd ganddynt hwy i werthfawrogi ac i amddiffyn yr un egwyddorion pwysig. Pa fodd bynag, y mae yn *ffaith* bod Ymneillduwyr Cymru a Lloegr dan eu gwahanol enwadau, yn cyd-uno, nid heb achos credwn, i olrhain eu hanes grefyddol yn ôl i'r mudiad a gymerodd le yn 1662. Ond nid oedd un achos rhesymol i'r eglwysyddion na neb eraill i dramgwyddo wrthynt am eu bod, ar y cyfnod daucan mlwyddol, yn ei gweled yn gymhwys i dreulio rhan o'r cyfnod hwnw mewn adolygiad ar hanes eu anghyddfurfiaeth ac eglurhad o'u hegwyddorion gerbron y wlad—er cymeryd dan ystyriaeth eu cyflwr a'u sefyllfa bresenol mewn perthynas a'r eglwys sefydledig a'r cyfreithiau sydd yn diogelu rhyddid cydwybod, ynghyd a chyttuno ar y moddion priodol er lledaenu yr hyn a ystyrient hwy yn egwyddorion gwir grefydd; a hyn oll mewn parchus goffadwriaeth am yr hyn a wnaeth ac a ddioddefodd y *Ddwy Fil*—tadau eu anghyddfurfiaeth. Os digwyddodd rhyw "ddwndwr lawer," fel y dywed "Cymro," wrth geisio gwneuthur hyn, rhaid cyfaddef mai peth ydoedd ag oedd yn gwbl allan o le, ac annheilwng o'r achlysur. A bod yn sicr nid "dwndwr" i gyd oedd gwaith yn Annibynwyr yn cyfrauu dros £150,000 tuag at achosion crefyddol, nac ychwaith yr hyn a wnaed gyda'r cyffelyb amcan gan y Bedyddwyr a'r Undodiaid. Cymaint a hyna *oddiwrthym ni* mewn attebiad i ail ofyniad "Cymro Llwyd;" ond fel y dywedwyd yn barod, mae y maes yn agored i'n Gohebwyr i wella neu ychwanegu os ewyllysiant. Awn bellach at y gofyniad blaenaf; sef, "Pwy yw olynwyr y ddwy fil uchod mewn gwirionedd? Pa un ai'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr, a'i yr Undodiaid?" Yn awr os wrth "olynwyr mewn gwirionedd" y meddylir

rhai ydynt yn cyttuno *yn hollol* a'r ddwy fil yn eu golygiadau ynghylch athrawiaethau ac ordinhadau crefydd; yr atteb priodol fydd, nad oes mor un o'r tri enwad ag sy'n *wir* olynwyr iddynt. Trindodiaid a Chalviniaid oedd y ddwy fil ac nid Undodwyr. Presbyteriaid y proffesent eu bod, ac nid Annibynwyr na Bedyddwyr; ond gydag ychydig o eithriadau yn cynnwys dynion enwog am eu dysg neu eu duwioldeb, pa rai a wrthodent Bresbyteriaeth. Boddlonai y ddwy fil hefyd a dymunent gael parhau i weinidogaethu yn yr eglwys wladwriaethol pe y gallasent wneud hyny heb wadu eu "hordeiniad" a chroesi argyhoeddiadau eu cydwybod ar rai pyngciau eraill a ymddangosent o bwys iddynt. Nid oeddent yn erbyn cyssylltu crefydd a'r llywodraeth; ac nid ar unrhyw bwngc o athrawiaeth y darfu iddynt ymneillduo oddiwrth yr eglwys sefydledig.

Nid llawer o'r ddwy fil fu byw i weled y *Toleration Act* mewn grym dan William III. Yn fuan wedi hyny adeiladwyd tua 300 o addoldai gan y Presbyteriaid, pa rai (fel y dadgan y gweithredoedd cyfreithiol, *Deeds*) a adeiladwyd "at addoliad yr Hollalluog Dduw, gan Ymneillduwyr Protestanaidd," neu eiriau i'r un perwyl. Ac ymddengys hefyd ei bod *yn rheol* gyda'r cynulleidfaoedd hyny i beidio rhwymo ar y gweinidog neu'r bobl unrhyw gredöau dynol, ond yn unig i gymeryd yr Ysgrythyrau fel rheol ffydd ac ymarweddiad; yr hyn ryddid ni fu ac nid yw yn rheol gyda'r Annibynwyr na'r Bedyddwyr union-gred.

Yn raddol, gyda threigliad amser, arweiniodd hyn i rydd-ymofyniad, dadleuaeth a chyfnewidiad mewn barn ar rai o byngciau crefydd; yr hyn etto a arweiniodd i enciliadau ac ymraniadau oddiwrthynt, fel ag mewn amser i leihau yn ddirfawr nifer a phoblogrwydd yr hen enwad Presbyteraidd. Eppil y Presbyteriaid hyny yw Undodwyr y dyddiau hyn gan mwyaf, pa rai a addolant yn y capeli lle yr addolai eu hynafiaid, ac fel hwythau a'i hystyriant hi yn ddyledswydd ac yn fraint i ddwyn tystiolaeth o blaid breiniau cydwybod a rhydd-ymofyniad. Fel cynrychiolwyr presenol yr hen Bresbyteriaid, ynte, yr edrychant ar y ddwy fil yn 1662 fel eu *tadau ysprydol*—ond heb ammheu yr hawl a gleimia enwadau Ymneillduol eraill i wneud yr un peth, gan goffa yn barchus am y gwroniaid crefyddol hyny.

Nid oes genym ni un hawl i ddisgwyl y bydd i'n sylwadau byr ac amherffaith i gael penderfynu y cwestiwn gyda'r cyfryw y dywed "Cymro Llwyd" eu bod yn gwadu nad oes dim un berthynas rhwng yr Undodiaid, fel enwad, o gwbl â'r ddwy fil gweinidogion hyny. Pwnc o hanes yn gwbl ydyw. Gwell gan hyny i adael i hanesydd cyfrifol i'w benderfynu. Yn gynnar yn y flwyddyn ddiweddaf cafodd Dr. Vaughan o Manchester ei benodi gan y Corff o Annibynwyr i ysgrifenu hanes tröad allan y ddwy fil yn 1662, ynghyd a'r amgylchiadau. Ni allesid dewis neb oedd fwy cymhwys i'r gorchwyl. Yn awr, y mae Dr. Vaughan mewn modd pendant yn galw yr Undodiaid yn "gynrychiolwyr presenol y Presbyteriaid cyfnewidiedig hyny," (the living representatives of those changed Presbyterians.)

Rhoddwn yma dystiolaeth Dr. Vaughan yn ei eiriau ef ei hun:—

* "Would we could induce the living representatives of those changed Presbyterians to look wisely at what has followed from that change, and to reconsider their ways. There are no men living in whom there is a finer sense of truthfulness than in our English Unitarians. Nor is there any religious body who has to pay so great a price as the cost of following their conviction." —p. 467.

Ond rhaid i ni yn awr i adael gyda hyn.—Gol.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Y Wladwriaeth.—Gwneir parotöadau mawr yn y Llŷs ar gyfer priodas Tywysog Cymru â'r Dywysoges Alexandra o Denmarc; yr hyn, deallwn, fydd i gymeryd lle yn gynnar yn mis Mawrth. Bydd y Senedd i ymgyfarfod ar y 5ed dydd o Chwefror. Y mae sisial am barotöadau a wneir tuag at ymosodiad ar

* *English Nonconformity, by Rabert Vaughan. D.D. London: Jackson & Co.* 1862.

weinyddiaeth Arglwydd Palmerston, gyda golwg i'w troi allan o'u swyddi mor gynted ag y gellir; ac mai ar y weinyddiaeth Dramor, dan Arglwydd Russell, yr ymosodir gyntaf ac yn benaf. Tybir fod y ganghen hono o'r weinyddiaeth yn fwy agored i ymosodiadau oherwydd cwestiynau dyryslyd a gyfodant oddiar ein perthynasau âg America, Groeg, ac Italy. Ond nid oes un hyspysrwydd sicr etto am fwriadau Mr. Gladstone gyda golwg ar drethi y wlad am y flwyddyn ddyfodol, ymhellach na bod yr amcan-gyfrifon ar y cyfan yn dra ffafriol, ac y disgwylir y bydd gostyngiad o ddwy geiniog yn y bunt yn y Dreth Incwm. Ac y mae lle i obeithio bellach am gyflenwad o gottwn o wledydd eraill heblaw o America.

Y CYFANDIR.

Ffraingc. — Nid oes neb a fedr wneud ei feddwl yn amlwg yn well na'r Ymherawdwr L. Napoleon, pan y ceisia wneud hyny. Medr hefyd gadw ei wir amcanion iddo ei hun; neu i'w gosod allan mewn brawddegau daufeddwl a chyffredinol. Ac y mae hyd yn oed ei distawrwydd weithiau yn dra phwysig; megys am yr hyn ydoedd ef mewn gwirionedd yn ei amcanu yn yr ymyraeth â Mexico. Mae yn awr wedi dyfod i'r amlwg mai yr hyn a amcanai ydoedd i ëangu dylanwad Ffraingc ac i gadw llywodraeth yr Unol Daleithiau o fewn terfynau, ac nid dim gofal neilldnol am Mexico dan ei hanhawsderau presenol. Gwnaeth araeth wrth agor ei Senedd yn yr hon yr adroddai pa faint o bethau oedd wedi eu gwneud y blynyddau diweddaf er dyrchafu a llesoli Ffraingc; ac hyspysai ei ddymuniad i'r wlad, yn yr etholiadau sydd ar ddyfod, i ethol dynion a fyddont yn barod i gyd-weithio ag ef. Mae efe yn deall yn dda pa fodd i foddio chwaeth y Ffrangcod a'u rhagfarnau cenedlaethol. A rhaid cydnabod fod amryw o'i fesurau yn ddiweddar wedi bod yn llesiol nid yn unig i Ffraingc ond i'r byd. Prif amcan yr araeth, fel yr ymddangosai, oedd i ddylanwadu ar yr etholiadau. Bu yn ofalus i beidio yngan gair am y fargen gywilyddus rhyngddo ef a'r diweddar Said Pacha, Rhaglaw yr Aipht, yn ol pa un yr anfonwyd catrawd o Negröaid Ethiopia, yn erbyn eu hewyllys ac mewn modd lledradaidd, i ryfela dros y Ffrangcod yn Mexico.

Druan o Poland!—Mae gwrthryfel mawr newydd dori allan yno—rhy debyg o derfynu mewn siomedigaeth unwaith etto, a thywallt gwaed, ac alltudio lluaws i Siberia.

America.—Mae y rhyfel yn para o hyd: nid oes un argoel am heddychiad. Er cael eu gwaethu gyda cholled mawr, o flaen Fredericksburg a Vixburg, mae yr Undebwyr wedi ennill tir yn Tennessee trwy frwydr bwysig Murfreesboro'. Y digwyddiad mwyaf pwysig yw y cyhoeddiad o "Broclamasiwn" Mr. Lincoln, yr hwn a ganlyn:—

Yn gymmaint ag i broclamasiwn gael ei anfon allan ar yr 22ain o Fedi, yn mlwyddyn ein Harglwydd 1862, gan Lywydd yr Unol Daleithiau, yn cynnwys, yn mhlith bethau ereill, yr hyn a ganlyn:—

Ar y dydd cyntaf o Ionawr nesaf, un fil wyth gant a thair a thriugain, bydd i bob person a ddelir yn gaeth o fewn unrhyw Dalaeth, neu ran o Dalaeth—pobl pa un a fydd y pryd hwnw mewn gwrthryfel yn erbyn yr Unol Daleithiau—i fod o hyny allan aq yn dragywydd yn rhydd. A bydd i lywodraeth Werinol yr Unol Daleithiau, yn cynnwys yr awdurdod filwrol a morwrol, gydnabod a myntumio rhyddid y cyfryw bersonau; ac ni bydd iddi gyflawni unrhyw weithred neu weithredoedd i ddal y cyfryw bersonau, neu unrhyw rai o honynt, mewn unrhyw ymdrechiadau a wnant er sicrhau eu rhyddid gwirioneddol.

A bydd i'r Llywydd nodi allan ar y dydd penodedig y taleithiau a fyddant mewn gwrthryfel ar y pryd; ac edrychir ar y ffaith fod unrhyw dalaeth, neu ei phobl, yn cael eu cynnrychioli yn Nghydgyngorfa yr Unol Daleithiau yn brawf, yn absenoldeb tystioliaeth gref i'r gwrthwyneb, na bydd y cyfryw Dalaeth a'i phobl y pryd hwnw mewn gwrthryfel yn erbyn yr Unol Daleithiau.

Yn awr, gan hyny, yr wyf fi, Abraham Lincoln, Llywydd yr Unol Daleithiau, trwy rinwedd yr awdurdod a roddwyd i mi fel Maeslywydd byddin a llynges yr Unol Daleithiau, ac fel mesur rhyfel priodol ac angenrheidiol er darostwng y gwrthryfel dywededig, ar y dydd laf hwn o Ionawr, yn mlwyddyn ein Harglwydd un fil wyth cant a thriugain a thair, ac yn unol â fy mwriad i wneud hyny, yn nodi allan y Taleithiau a'r rhanau o Daleithiau y mae eu pobl heddyw mewn gwrthryfel yn erbyn yr Unol Daleithiau; sef, Arkansas, Texas, Louisiana (oddieithr tri ar ddeg o blwyfydd), Mississippi, Alabama, Florida, Georgia, Carolina Ddeheuol, Carolina Ogleddol, Virginia (oddieithr y 48 sir a elwir Virginia Orllewinol, ac amryw siroedd a threfydd ereill a enwir ganddo

A thrwy rinwedd yr awdurdod ac i'r pwr pas dywededig, yr wyf yn gorchymyn ac yn cyhoeddi fod pob person a ddelir yn gaeth o fewn i'r Taleithau a'r rhanau o Daleithiau a enwyd yn rhydd am byth; ac y bydd i Lywodraeth Werinol yr Unol Daleithiau, yn cynnwys yr awdurdod filwrol a morwrol, gydnabod a myntumio rhyddid y personau dywededig.

Ac yr wyf drwy hyn yn gorchymyn i'r bobl a ryddheir felly i ymattal rhag pob trais, oddi eithr trwy hunan amddiffyniad angenrheidiol; ac yr wyf yn eu hannog hwynt i lafurio yn ffyddlawn am gyflogau rhesymol yn mhob amgylchiad y goddefir iddynt.

Ac yr wyf yn cyhoeddi yn mhellach, y rhoddir derbyniad i'r cyfryw bersonau, o sefyllfa addas, i fyddin yr Unol Daleithiau, i gadw amddiffynfeydd, sefyllfaoedd, gorsafoedd, a lleoedd ereill, ac i wneud gwasanaeth ar bob math o longau yn y gwasanaeth dywededig.

Ac ar y weithred gyfiawn yma, yr hon a warantir gan y cyfansoddiad ar angenrheidrwydd milwraidd, yr wyf yn erfyn barn ystyriol dynolryw a ffafr rasol yr Hollalluog Dduw.

Yn dyst o'r hyn yr wyf yma wedi gosod fy llaw ac wedi peri i sel yr Unol Daleithiau gael ei gosod wrtho.

Gwnaed yn ninas Washington, dydd 1af o Ionawr, yn y flwyddyn 1863, a'r 87ain o annibyniaeth Unol Daleithiau America.

Gan y Llywydd, ABRAHAM LINCOLN.

CYFARFOD NADOLIG Y CRIBYN.

CYNALIWYD cyfarfod yn y capel uchod dydd Nadolig diweddaf. Am ddeg yn y bore darllenwyd penod gan Mr. Rees Jones, Cribyn. Yna cawsom araeth ar "Gerddoriaeth Cynnulleidfaol," gan Mr. J. Davies, (Ioan Glan Teifi), Cellan; da genym pe caniatai ein gofod i ni ddweyd gair arni: ond nis gallwn lai na dweyd ei bod yn un dra rhagorol, a thraddodwyd hi yn yr iaith fwyaf coeth ag a glywsom erioed. Derbynied Ioan ein diolch mwyaf diffuant am ei ymweliad. Yn y prydnawn, wedi darllen a chanu, cafwyd anerchiadau gan Evan Jones, Penrhiw, a Daniel Gloff, Llanwnen. Yna adroddwyd "Addysg dda," gan Esther Evans, Llysfaen, ac Anne Jenkins, Llechwedd-deri; "Nef, nef i mi," gan John Davies, Troedyrhiw; "Y Llysfam," gan Mary Anne Lewis, Cribyn-bach; Salm gan Anne Lewis, Capel. Tôn gan D. Jenkins, Blaenwaun, a'i fab. Salm gan Jane a Nell Davies, Flux. "Stwr wrth bregethu," gan Thomas John, Felinfach; Emyn gan Mary Williams, Felin; Penillion gan Samuel Davies, Esger; Emyn gan Samuel Davies, Tynycelyn; "Myfyrdod," gan John Jenkins, Blaenwaun; "Iawn ymddygiad mewn addoliad," gan J. James, Felinfach; "Beddrod fy mam," gan Anne Evans, Maesmynach; Tôn "Yr Amddifad," gan Evan Davies a Mary Thomas, Capel; "Llef o'r Tloty," gan Margaret Griffiths, Troedyrhiw; "Dyledswydd yr ieuanc tuag at yr hen," gan David Davies, Penybwlch; "Cwyn y Cristion," gan David Evans, Siop, a John Davies, Felinfach; "Y cyfan er daioni," gan David Hughes, Tynygwndwn; "Diwedd blwyddyn," gan Eliza Jones, Penrhiw; "Llais y flwyddyn newydd," gan Mary Davies, Capel; "Gwlad fy ngenedigaeth," gan Thomas Evans. Cribyn; Tôn gan D. Jenkins, Blaenwaun; Salm gan D. Evans, Penbontbren; Salm gan Mary Evans, Penbontpren; "Y gweithiwr tlawd," gan John Jones, Felinfach; "Llef o'r Tloty," gan Dinah Jones, Penrhiw; "Anerchiad," gan Mary Davies, Capeli; "Twyll cyfoeth anghyfiawn," gan Martha ac Eliza Evans, Mount; Tôn "Y ddwy Fair wrth y bedd," gan Sarah Jenkins, Rhydybene, a Mary Thomas, Maesgwyn; "Cynadledd," gan Sarah Jenkins a'i chymdeithion; Salm gan DinahJones,Penrhiw; "Addysg i'r ieuanc," gan Evan Davies, Hendy'r Neuadd; Tôn gan D. Jenkins, Blaenwaun; "Cân y gwyliau," gan Evan Jones, Cribyn; "Dyledswydd dynion i iawn-ddefnyddio eu talentau," gan John Davies, Clytau; "Twyli y crydd," gan Thomas Jones, Felinfach; Emynau gan Jane a Nell Jones, Flux; Emyn gan Dinah Jones, Penrhiw; "Cwyn y tlodion," gan David Evans, Siop; Penod gan Anne Jones, Troedyrhiw; Tôn gan D. Jenkins, Blaenwaun; Salm gan Daniel Jones, Pwllycrychydd; "Cysuron yr hen wraig," gan Anne Evans, Maesmynach, a Sarah Jenkins, Rhydybene; "Y fam i'w baban," gan Dinah Jones, Penrhiw; Tôn "Y bardd wrth farw," gan Evan Davies, Capel, a'i gwmni; "Plentyn yn cysuro ei mam," gan ElizaJones,Penrhiw; "Adduned Jephthah," gan James Evans, Cribyn, a Sarah Jenkins, Rhydybene; Tôn gan D. Jenkins, Blaenwaun; "Y fenyw weniaethus gan John Jones, Felinfach; "Y twyllwr hudawl," gan Sarah Jenkins, Rhydybene; "Can i'r Bibl," gan David Davies, Penybwlch; Tôn gan D. Jenkins, Blaenwaun, a'i feibion; "Dydd y farn," gan JohnJones, Felinfach; Areithio gan James Evans, Cribyn; JohnJones,Felinfach; JohnDavies, Glynyrychain: a D. Jenkins, Blaenwaun. Yna terfynwyd drwy ganu "Duw gadwo'r Frenines." Yr oedd y cynulliad yn lluosog, yr adrodd, y canu, a'r areithio yn hynod dda; ac i goroni y cyfan, cariwyd ef ymlaen yn heddychlawn. D. T.

Barddoniaeth.

Y LLAFURWR TLAWD.

Mae y gwr yn ymguraw,
A'i dylwyth yn wyth neu naw;
Dan oer hin yn dwyn y rhaw—mewn
trwmwaith
Bu ganwaith heb giniaw.

Aml y mae yn teimlo min
Yr awel ar ei ewin;
A llwm yw ei gotwm, gwel,
Durfing i'w waed yw oerfel;
Noswylio yn iselaidd,
A'i fynwes yn bres oer, braidd.
Ba helynt cael ei blant cu,
Oll agos a llewygu?
Dwyn ei geiniog dan gwynaw,
Rhoi angen un rhwng y naw!
Edrych yn y drych hwn dro,
Gyr galon graig i wylo;
Pob cell a llogell egyr,
A chloiau dorau a dyr.

DEWI WYN O EIFION.

PENILLION I GARIAD CYFFREDINOL

BUDDUGOL.

O, mor werthfawr a rhagorol
Ydyw cariad cyffredinol:
Mae ei wenau'n llawn o swynion,
Yn cynyrchu gwir gysuron.

Un yw hwn i wlad sy'n urddas,
Un o brif golofnau'r deyrnas;
Pe cai ef ei lwyr ddifodi
Byddai'r byd yn llawn trueni.

Hwn yw sylfaen fawr ddechreuol
Llu o gymdeithasau buddiol;
Ac aneirif sefydliadau,
Ynt yn llawn o ragoriaethau.

Mae ei law yn estynedig
I'r tylawd a'r gorthrymedig:
Torcalonus gri y caethion
Sy'n trywanu gwraidd ei galon.

Hwylia drosodd at yr Indiaid,
Gwel eu cyflwr, cwyd ochenaid;
Dywed wrthynt am y Ceidwad,
Gan fynegi maint ei gariad.

Meddwl am y gorchwyl creulon,
O fasnachu mewn dynolion,
Sydd yn loes ac ing arteithiol
I hoff gariad cyffredinol.

Pan fo bar a thrwst rhyfeloedd,
Truenusaf drwy'r teyrnasoedd,
Ceisia ef adferu heddwch,
Ac i feithrin gwir dawelweh.

Trist yw hwn fod rhai yn ymyl
Rhagorfreintiau gwlad efengyl,
Drwy eu hoes mewn anystyriaeth,
Yn dibrisio'u hiachawdwriaeth.

Pan fo llwydd ar achos crefydd,
Mawl i Dduw yn llenwi'n bröydd,
Gwir orfoledd sydd yn ffrydio
Drwy fynwesau pawb a'i noddo.

Hwn a'n dysg i wneud ein gorau
Er diwreiddio camsyniadau,
Ac i ddwyn y sawl a'u coledd
I wybodaeth o'r gwirionedd.

Ceisied pawb, drwy ddoeth ymddygiad,
I hwylysu ei gerddediad,
Fel y caffo oruchafiaeth
Ar bob brad a thraws-arglwyddiaeth.

Doed ar frys y cyfnod dedwydd
Pan orlenwo yr holl wledydd;
Hedd a llwyddiant yn teyrnasu,
Nef a daear yn gwynfydu.

DEWI HEFIN.

TORIAD Y WAWR.

Y wawr weddus, a'i bysedd rhuddain,
Sydd draw yn agor dor y dwyrain;
Drwy y coed mae'r adar cain,—a'u didlawd,
Dyner arawd yn ei harwyrain.

I. GLAN GEIRIONYDD.

DAU ENGLYN I'R ARGRAFFWASG.

Peiriant hynod darparawl,—a dewr wê,
Ydyw'r Wasg ddefnyddiawl;
Trwy'r ddaear, mae'n gwasgar gwawl,
Doniau y meddwl dynawl.

Glanwedd yw ei goleuni—ffun enaid,
Ffynonell pur wersi;
"Gwybodaeth" deg heb oedi,
Yw arwydd-air ei hurdd hi.

I'R AREITHFA (PULPIT).

Lle addas gwir llywyddawl,—i daenu
Daioni'r Gair dwyfawl,
Yw'r Areithfa, mwya'i mawl,
Nwyfus ei mana nefawl.

Aberdar. EIDDIL CYNON.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.